



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

# Ymgynghoriad:

**Yr arferion mewn contractau yn  
sector moch y Deyrnas Unedig**

**2022**



© Hawlfraint y Goron 2022

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v.3. I weld y drwydded hon ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) neu anfonwch neges ebost at [PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn [porkcontractconsultation@defra.gov.uk](mailto:porkcontractconsultation@defra.gov.uk)

neu

Department for Environment, Food and Rural Affairs  
Supply Chain Fairness Team  
Seacole Block  
2nd Floor  
2 Marsham Street  
London SW1P 4DF

## Cynnwys

<b>Y cefndir</b> .....	4
<b>Diben yr ymgynghoriad</b> .....	5
<b>Y broses ymgynghori</b> .....	5
Ar bwy y bydd y cynnig hwn yn effeithio?.....	5
Amser a pharhad yr ymgynghoriad hwn .....	5
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn .....	6
<b>Ar ôl yr ymgynghoriad</b> .....	7
<b>Amdanoch chi</b> .....	8
<b>Adborth cyffredinol</b> .....	13
<b>Y math o gytundeb</b> .....	13
<b>Cynnwys y cytundeb</b> .....	15
<b>Ffurio pris</b> .....	16
<b>Premiymau a gostyngiadau</b> .....	16
<b>Adroddiadau ar brisiau a thryloywder</b> .....	17
<b>Datrys anghydfodau</b> .....	18
<b>Yr effaith ar fusnes a defnyddwyr</b> .....	18
<b>Cyfuno</b> .....	19
<b>Grwpiau marchnata</b> .....	19
<b>Amrywiadau o fewn y Deyrnas Unedig</b> .....	20
<b>Pryderon eraill</b> .....	20

## Y cefndir

1.1 Mae'r sector moch wedi gweld heriau arwyddocaol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafodd gormodedd o foch, a gododd o ganlyniad i ostyngiad cyflym yn y galw am allforion yn Tsieina, a diffyg cigyddion medrus ar safleoedd prosesu, ei ddwysáu gan Covid-19 ac arweiniodd at ôl-groniad sylweddol o foch ar ffermydd.

1.2 Mewn ymateb i'r heriau hyn, rhoddwyd amryw o fesurau allweddol ar waith. Yn y Deyrnas Unedig, lansiodd y llywodraeth gynllun fisas dros dro a ganiataodd i hyd at 800 o gigyddion medrus ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig am uchafswm o 6 mis, ar ben y ddarpariaeth bresennol ar gyfer cigyddion yn y llwybr Gweithwyr Medrus. Yn Lloegr, agorwyd Cynllun Cymorth Storio Preifat a oedd yn galluogi proseswyr i roi moch heb eu cigyddu a moch wedi'u cigyddu mewn storfeydd wedi'u rhewi am gyfnod o rhwng 2 a 6 mis cyn caniatáu i'r cynnyrch ailymuno â'r farchnad yn ddiweddarach. Lansiwyd Cynllun Taliadau Cymhelliant Lladd hefyd i gymell proseswyr i gynyddu nifer y moch a oedd yn mynd drwy'r lladd-dai drwy dalu £10 am bob mochyn a leddid mewn sifftiau a oedd yn ychwanegol at batrymau gwaith arferol y proseswyr. Gallai hyd at 100,000 o foch gael eu lladd o dan y cynllun hwn. Mae'r llywodraeth hefyd yn gweithio'n agos gyda'r AHDB i ehangu'r allforion presennol ac i nodi cyfleoedd newydd i allforio, yn enwedig ar gyfer cig moch wedi'i brosesu'n ysgafn. Yng Ngogledd Iwerddon, cyhoeddodd DAERA gynllun cymorth gwerth hyd at £2m ar gyfer ffermwyr moch a oedd wedi'u heffeithio'n ariannol gan farchnadoedd gwannach, costau porthiant uwch a symud moch oddi ar y fferm i'w lladd, a lansiwyd ym mis Mai. Mae llywodraeth yr Alban hefyd wedi rhoi mesurau ar waith i gynorthwyo'r sector ar hyn o bryd gyda Chynllun Cymorth Storio Preifat a chronfa caledi moch i gynhyrchwyr moch.

1.3 Rydym yn cydnabod bod modd gwneud mwy. Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod yna ddiffyg tryloywder rhwng proseswyr a chynhyrchwyr, ac y gallai dull mwy cyson ymysg proseswyr ddod â manteision cadarnhaol i'r sector.

1.4 Ymgynghoriad ledled y Deyrnas Unedig yw hwn, sy'n cael ei gynnal gan DEFRA gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a DAERA. Caiff unrhyw gamau pellach mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn eu trafod a'u cytuno gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

## Diben yr ymgynghoriad

2.1 Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu tystiolaeth am sut mae trefniadau cyflenwi yn y sector moch yn gweithredu ar hyn o bryd ac ystyried natur y berthynas rhwng y gwahanol bartïon yn y gadwyn gyflenwi. Mae hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch a oes modd gwella sut mae'r gadwyn gyflenwi'n gweithio.

2.2 Mae cynhyrchwyr moch yn y Deyrnas Unedig yn tueddu i fod yn fusnesau bach, unigol. Fel arfer, mae'r cynhyrchwyr hyn yn cyflenwi busnesau cyfunol iawn ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi sydd â chyfrannau sylweddol o'r farchnad. Gall y gwahaniaeth hwn olygu bod cynhyrchwyr moch yn agored i arferion masnachu annheg. Cyflwynodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 y 'Pwerau Trafod Teg' sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael ag unrhyw arferion annheg, gan alluogi'r Llywodraeth i gyflwyno rheoliadau i oruchwylio'r berthynas rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr lle bo angen hynny.

2.3 Bydd unrhyw ymyriadau yn y sector moch yn sgil yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cynllunio i sicrhau y gall busnesau fferm ymgymryd â gwaith cynllunio busnes a gwaith rheoli risg craff, gan gefnogi sector cystadleuol a gwydn sy'n sicrhau manteision i gynhyrchwyr, defnyddwyr a threthdalwyr.

## Y broses ymgynghori

### Ar bwy y bydd y cynnig hwn yn effeithio?

3.1 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfeirio at unrhyw un sy'n ymwneud â chadwyn gyflenwi'r sector moch. Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb arbennig i chi os ydych chi'n ymwneud â'r canlynol:

- cynhyrchu moch i'w gwerthu ymlaen i brosesydd cig, naill ai fel cynhyrchydd annibynnol neu fel aelod o grŵp marchnata; neu
- brynu moch i'w prosesu; neu
- weithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu moch, eu gwerthu, gan gynnwys yn y sectorau cyfanwerthu, lletygarwch neu fanwerthu, neu brosesu moch; neu
- weithgareddau sy'n berthnasol i'r diwydiant moch.

### Amser a pharhad yr ymgynghoriad hwn

3.2 Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 15 Gorffennaf a bydd yn agored i ymatebion am gyfnod o ddeuddeg wythnos.

3.3 Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 7 Hydreth. Fyddwn ni ddim yn ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw.

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

3.4 Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn drwy ddefnyddio hyb ymgynghori Citizen Space Defra: <https://consult.defra.gov.uk/supply-chain-fairness/yr-arferion-mewn-contractau-yn-sector-moch-y-du>

Neu drwy'r ebost: [porkcontractconsultation@defra.gov.uk](mailto:porkcontractconsultation@defra.gov.uk)

Neu drwy ysgrifennu drwy'r post at:

Department for Environment, Food and Rural Affairs  
Supply Chain Fairness team  
Seacole Block  
2nd Floor  
2 Marsham Street  
London SW1P 4DF

Rhowch safbwyntiau, tystiolaeth ac esboniad perthnasol fel bod modd rhoi ystyriaeth briodol i ddewisiadau gwahanol, gan gynnwys unrhyw achosion lle mae gennych reswm dros roi sylwadau ar unrhyw beth yn yr ymgynghoriad hwn neu ei herio.

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol i fwydo'u hymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodaeth neu eu cefnogwyr, yn aml drwy awgrymu geiriad gosod i ymatebwyr ei ddefnyddio. Mae ymatebion ymgyrch fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gall ymatebion ymgyrch gael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion eraill er mwyn sicrhau bod modd crynhoi ehangder y safbwyntiau sy'n dod i law yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgyrch yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o safbwyntiau'r cyhoedd ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimladau ar fater. Y llwybr a ffefrir i'r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb wedi'i seilio ar ymgyrch) yw drwy lwyfan Citizen Space.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

4.1 Bydd ymatebion sy'n dod i law erbyn 7 Hydreth yn cael eu dadansoddi a'u hystyried gan holl weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig wrth ystyried y mesurau y mae eu hangen er mwyn gwella tryloywder yn y sector moch. Trefnir bod yr ymatebion ar gael i'r timau perthnasol o swyddogion polisi yn y Gweinyddiaethau Datganoledig, a all rannu dadansoddiadau a chasgliadau gyda chydweithwyr uwch a'r Gweinidogion.

4.2 Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn: [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra). Bydd atodiad i grynodedb yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd a pha ran o'r Deyrnas Unedig y maent yn ei chynrychioli ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

4.3 Caiff Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn i drefnu ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat (e.e., cyfeiriad cartref, cyfeiriad ebost, etc).

4.4. Os byddwch yn clicio ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir ichi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod yn agored i'w rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith ar weld gwybodaeth (sef yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIRs) 2004), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018)). Mae gennyn ni rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, byddai'ch esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwysu'r rhwymedigaethau hyn ynglŷn â datgelu o'i gymharu ag unrhyw rwymedigaeth ynglŷn â chyfrinachedd. Os cawn gais am yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn eich ymateb i'r ymgynghoriad, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb, ond allwn ni ddim gwarantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

4.5 Os cliciwch ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat ar gael i'r cyhoedd.

4.6 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio sydd i'w gweld yn <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

4.7 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gŵynion am y broses ymgynghori, byddwch cystal â'u cyfeirio at:

Drwy'r ebost: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk) neu mewn ysgrifen at:

Consultation Co-ordinator, Defra: Seacole Block, 2nd Floor, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF.

## Amdanoch chi

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf at ffermwyr moch, lladd-dai a phroseswyr sy'n ymwneud â chadwyn gyflenwi'r sector moch a'r rhai sydd â diddordeb ehangach yn y sector, gan gynnwys y rhai ar yr ochr manwerthu a defnyddwyr. Bwriedir i'r cwestiynau canlynol ganiatáu i ddarlun cyffredinol o'r ymatebion gael ei ddatblygu a helpu i ddadansoddi'r ymatebion yn fanwl.

### 1. Pa fath o fusnes ydych chi'n ei weithredu? Dewiswch bob un sy'n gymwys.

- Cynhyrchydd integredig (magu moch ar ran prosesydd)
- Cynhyrchydd annibynnol (magu moch i'w gwerthu ymlaen)
- Grŵp marchnata
- Lladd-dy
- Prosesydd eilaidd (yn gweithgynhyrchu cynhyrchion o gig wedi'i brynu)
- Menter gydweithredol
- Manwerthwr
- Cyfanwerthwr
- Sefydliad cynrychioli / sefydliad masnach
- Arall (rhowch y manylion)
- Gwell gen i beidio â dweud

### 2. Os ydych chi'n sefydliad cynrychioli, pa ran o'r gadwyn gyflenwi rydych chi'n ei chynrychioli'n bennaf? Dewiswch bob un sy'n gymwys.

- Cynhyrchwyr
- Bridwyr
- Lladd-dai
- Proseswyr
- Manwerthwyr
- Cyfanwerthwyr
- Defnyddwyr
- Arall (rhowch y manylion)
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud



**3. Ble mae'ch busnes wedi'i leoli? (Ticiwch bob un sy'n gymwys)**

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall (rhowch y manylion)
- Wn i ddim
- Gwell gen i beidio â dweud

**4. Os ydych chi'n gynhyrchydd, faint o foch rydych chi'n eu cynhyrchu bob blwyddyn?**

- 0 – 4,999
- 5,000 – 9,999
- 10,000 – 19,999
- 20,000 – 24,999
- 25,000 – 49,999
- 50,000 – 99,999
- 100,000+
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**5. Os ydych chi'n gynhyrchydd, beth yw'r disgrifiad gorau o'ch busnes?**

- Crwydro'n rhydd
- Bridio yn yr awyr agored
- Magu yn yr awyr agored
- Dan do
- Cyfuniad o dan do ac yn yr awyr agored
- Organig
- Arall (rhowch y manylion)
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**6. Os ydych chi'n gynhyrchydd, pa fath o fusnes sydd gennych chi?**

- Bridio yn unig
- Bridio a magu
- Bridio, magu a gorffen
- Gorffen yn unig
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**7. Os ydych chi'n brosesydd/lladd-dy, faint o foch rydych chi'n eu trin yn flynyddol?**

- 0 – 5,000
- 5,000 – 100,000
- 100,000 – 500,000
- 500,0000 +
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**8. Os ydych chi'n brosesydd, ydych chi'n berchen ar unrhyw rai o'r moch sy'n cael eu prosesu?**

- Ydw
- Nac ydw
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**9. Os ydych chi'n gynhyrchydd, ble mae eich moch fel arfer yn cael eu hanfon i ddechrau i'w lladd/prosesu?**

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall (rhowch y manylion)
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**10. Os ydych chi'n gynhyrchydd, pa ganran o foch rydych chi'n eu hanfon at brosesydd mawr?**

- 0 – 20%
- 20 – 39%
- 40% - 59%
- 60 – 79%
- 80 – 100%
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**11. Os ydych chi'n gynhyrchydd, ydych chi'n berchen ar unrhyw foch eich hun?**

- Ydw
- Nac ydw
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**12. Os ydych chi'n gynhyrchydd, ydych chi'n defnyddio gwasanaethau grŵp marchnata?**

- Ydw
- Nac ydw
- Heb fod yn gymwys
- Wn i ddim
- Gwell gen i beidio â dweud

**13. Os ydych chi wedi ateb ydw i gwestiwn 11, pa ganran o'ch da byw ydych chi'n ei chyflenwi i grŵp marchnata?**

- Dan 20%
- 21-35%
- 36-50%
- 51-70%
- Dros 70%
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**14. Os ydych chi'n brosesydd, ydych chi'n defnyddio gwasanaethau grŵp marchnata?**

- Ydw
- Nac ydw
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

**15. Os ydych chi wedi ateb ydw i gwestiwn 14, pa ganran o'r cig moch rydych chi'n ei lladd/prosesu sy'n cael ei phrynu oddi wrth grŵp marchnata?**

- Dan 20%
- 21-35%
- 36-50%
- 51-70%
- 71%+
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys
- Gwell gen i beidio â dweud

## Adborth cyffredinol

Bydd yr enwau'n cael eu tynnu o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac mae'r data demograffig a ddarparwyd mewn cwestiynau blaenorol yn dod o dan y deddfau diogelu data. Er hynny, rydym yn cydnabod y gallai llawer deimlo'n bryderus am rannu eu barn a'u profiadau.

### 1. Ydych chi'n teimlo'n gyffyrddus yn rhannu'ch barn a'ch profiadau yn gysylltiedig â'r gadwyn cyflenwi moch fel rhan o'r ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.

- Ydw
- Nac ydw

## Y math o gytundeb

Mae trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r cytundebau yn y sector moch yn gontractau ysgrifenedig sy'n bodoli ers tro byd sydd o bosibl heb eu diweddarau ers sawl blwyddyn, neu gontractau ysgrifenedig sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol drwy gytundeb llafar rhwng cynhyrchydd a phrosesydd. Mae rhai cytundebau gwerthu eraill yn cynnwys contractau treigl hirdymor, contractau cyfnod penodol sy'n para blwyddyn neu fwy a chontractau sy'n seiliedig ar y Pris Moch Safonol (SPP) ac yn cael eu haddasu yn unol â'r pris hwnnw. Er bod contractau ysgrifenedig sy'n gyfreithiol rwymol yn rhoi mwy o sicrwydd i bob parti pan gânt eu defnyddio, rydyn ni'n deall nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n gyffredin yn y sector, ac nad ydyn nhw'n ofynnol o dan y gyfraith.

### 2. Fel cynhyrchydd, gyda phwy rydych chi'n gwneud eich cytundeb gwerthu?

- Prosesydd
- Grŵp marchnata
- Arall (rhowch esboniad)
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys

### 3. Pa fath o gytundeb gwerthu sydd gennych chi?

- Ysgrifenedig (yn cael ei ddiweddarau mewn ysgrifen)
- Ysgrifenedig (yn cael ei ddiweddarau ar lafar)
- Llafar
- Dim un
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys

4. Rydym yn awyddus i ddeall mwy am sut mae newidiadau'n cael eu gwneud mewn cytundeb. Rhowch fanylion sy'n ymwneud ag amlder y newidiadau, y trafodaethau dan sylw a phwy sydd fel arfer yn cychwyn y broses hon.
5. Er bod llawer o gytundebau gwerthu yn gytundebau llafar, mae hwn yn gontract cyfreithiol rwymol mae'n rhaid glynu wrtho. Os oes gennych chi gytundeb llafar, i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys

6. Er mwyn gwella tryloywder yn y sector, dylai'r holl gytundebau gwerthu rhwng cynhyrchwyr a phrynwyr gael eu cynnwys mewn cytundeb ysgrifenedig. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim

Mae rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi awgrymu nad yw telerau ac amodau cytundebau bob amser yn cael eu parchu, yn enwedig ar adegau pan fo'r farchnad o dan bwysau arwyddocaol. Mae hyn yn creu heriau o ran blaengynllunio a hynny ymysg cynhyrchwyr a phroseswyr.

7. Mae fy nghytundebau gwerthu i bob amser yn cael eu hanrhydeddu. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim
- Heb fod yn gymwys

## Cynnwys y cytundeb

Ar hyn o bryd does dim rwymedigaethau i gynnwys telerau neu amodau penodol mewn cytundeb gwerthu, ar sail wirfoddol na gorfodol. Gallai amlinelliad o gytundeb gwerthu (fersiwn o gontract ar ffurf safonol) sicrhau bod yr holl gytundebau rhwng prosesydd a chynhyrchydd yn cynnwys darpariaethau penodol, megis telerau clir ynghylch talu, y niferoedd sydd i'w cyflenwi, cymalau *force majeure*, hyd y cytundeb etc.

**8. Dylai pob cytundeb gwerthu ddilyn strwythur penodol a chynnwys cyfeiriad at yr un telerau ac amodau. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim

**9. Mae angen deddfwriaeth, yn hytrach na dull gwirfoddol, i sicrhau bod amlinelliad o'r cytundeb gwerthu yn gyson ar draws y gadwyn gyflenwi. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim

**10. Oes unrhyw gymalau a ddylai fod yn orfodol mewn unrhyw gytundeb gwerthu? Rhowch y manylion.**

**11. Oes unrhyw gymalau a ddylai gael eu gwahardd mewn unrhyw gytundeb gwerthu? Rhowch y manylion.**

**12. A ddylai newidiadau gael eu caniatáu yn y cytundeb gwerthu?**

- Dylen
- Na ddylen

**13. Os dylen, rydym yn awyddus i glywed eich barn ynghylch pa newidiadau a ddylai gael eu caniatáu, o dan ba amgylchiadau a'r broses ar gyfer newid cytundebau gwerthu. Rhowch fanylion yn eich ateb.**

## Ffurio pris

Y farchnad fyd-eang sy'n pennu pris unrhyw nwyddau amaethyddol yn y pen draw. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y pris sy'n cael ei dalu ar lefel unigol er bod adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu nad yw'r ddau barti i'r contract bob amser yn deall y rhain yn dda.

**14. Mae'r ffactorau sy'n ffurfio'r pris yn y contract sydd i'w dalu am anifail yn glir ac yn dryloyw i ddau barti'r cytundeb gwerthu. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim

**15. Rydym yn awyddus i glywed barn am y ffactorau sy'n cyfrannu ar hyn o bryd at y prisiau mewn contract (er enghraifft: mynegeion marchnad fel y Pris Moch Safonol, Pris Pob Mochyn neu Bris Cyfartalog Bacwn y Tribune, cyfraniad wythnosol, cost cynhyrchu etc) gan gynnwys a fyddai ffactorau eraill yn well. Rhowch fanylion yn eich ateb.**

## Premiymau a gostyngiadau

Does dim dull cyson ar draws y sector o ddefnyddio premiymau a gostyngiadau. Mae cyfraddau a diffiniadau yn amrywio rhwng proseswyr a all arwain at ddiffyg tryloywder ynghylch sut mae'r pris sy'n cael ei dalu wedi cael ei addasu.

**16. Mae'r premiymau a'r gostyngiadau a all gael eu defnyddio yn y pris sy'n cael ei dalu am bob mochyn yn glir ac yn ddiamwys yn y man gwerthu. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim



## Adroddiadau ar brisiau a thryloywder

Mae amryw o ddulliau adrodd ar brisiau ar gael ar hyn o bryd. O dan y rheoliadau presennol ar gyfer cofnodi prisiau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i ladd-dai sy'n lladd mwy na 500 o foch yr wythnos roi data i'r AHDB ar gyfer cyfres prisiau cyfeirio'r Deyrnas Unedig (nid yw moch organig na moch sy'n crwydro'n rhydd wedi'u cynnwys yn y data yma). Mae gwybodaeth atodol yn cael ei rhoi ar sail wirfoddol ac mae'n cael ei defnyddio i gyfrifo Pris Moch Safonol (SPP) Prydain Fawr. Dyw data Gogledd Iwerddon ddim yn cael ei ystyried wrth ffurfio'r SPP, er ei fod yn dal i gael ei ddefnyddio yno weithiau i ffurfio prisiau contractau. Yn ychwanegol, mae grwpiau marchnata a grwpiau cynhyrchwyr yn rhoi prisiau pwysau marw ar gyfer y Pris Pob Mochyn (APP) ac mae'r Weekly Tribune yn cyhoeddi data am brisiau fel rhan o'i gylchlythyrau. Rydym yn awyddus i glywed eich barn chi ar y meysydd lle mae modd gwella tryloywder y farchnad a'r data sydd ar gael, gan gynnwys syniadau ar y posibilrwydd o ddatblygu mecanweithiau adrodd newydd.

**17. Mae'r gwasanaethau presennol sy'n rhoi adroddiadau ar y farchnad yn darparu lefel uchel o dryloywder. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim

Er bod data cynhwysfawr yn cael ei gyhoeddi ynglŷn â phrisiau pwysau marw cyfartalog ar gyfer moch, wedi'i ddiffinio fel safon, mae'r wybodaeth arall sydd ar gael yn fwy cyfyngedig (e.e., prisiau moch premiwm megis rhai sy'n crwydro'n rhydd, organig, moch a fagwyd mewn systemau cynhyrchu awyr agored penodol, neu brisiau ar gyfer lladd sy'n gysylltiedig â lles neu werthiannau ar y pryd etc). Anghyflawn hefyd yw'r darlun o gyfanswm y moch sy'n cael eu lladd, gan nad yw anifeiliaid o gadwyni cyflenwi integredig yn cael eu cynnwys yn y samplau cofnodi prisiau.

**18. A ddylai unrhyw bwyntiau data ychwanegol o gam cyntaf y gadwyn gyflenwi (rhwng y cynhyrchydd a'r prosesydd), nad ydyn nhw'n cael eu darparu ar hyn o bryd, fod ar gael [i'r awdurdod perthnasol]? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Dylen
- Na ddylen
- Wn i ddim

Mae adroddiadau am brisiau wrth glwyd y fferm ac adroddiadau ar brisiau manwerthu wedi'u datblygu'n gymharol dda, ond mae gwybodaeth am y gwahanol gamau yn y gadwyn gyflenwi yn brinnach ar y cyfan, megis galw ymysg y defnyddwyr am doriadau penodol o borc, a gwerth y toriadau hynny.

**19. A fyddai adroddiadau ychwanegol ar y farchnad, ynglŷn â chymau eraill yn y gadwyn gyflenwi, yn gwella tryloywder? Rhowch resymau dros eich ateb.**

- Bydden
- Na fydden
- Wn i ddim

## Datrys anghydfodau

Pan fo anghydfodau busnes yn codi, mae angen trefniadau effeithiol i'w datrys, ac mae gennyn ni ddiddordeb mewn safbwyntiau ar yr opsiynau sydd ar gael. Weithiau gall cyflafareddu fod yn broses gostus a llafurus a gall mathau eraill o benderfyniad gan drydydd parti fod yn briodol (pan fo'r ddau barti yn cydsynio) fel ffordd amgen o ddatrys anghydfodau.

**20. Rhowch eich barn chi ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys anghydfodau ac a ddylai hyn fod yn gyfrwymol ynteu'n gynghorol.**

## Yr effaith ar fusnes a defnyddwyr

**21. Os caiff gofynion deddfwriaethol newydd eu cyflwyno o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau i fusnesau a allai godi? Rhowch resymau dros eich ateb, gan gynnwys unrhyw gostau neu arbedion blynyddol ychwanegol ar gyfer eich busnes ac unrhyw effeithiau penodol mewn un neu ragor o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.**

**22. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar ddefnyddwyr a allai godi yn sgil cyflwyno rheoliadau yn y sector moch? Rhowch resymau dros eich ateb, gan gynnwys unrhyw effeithiau disgwylidig o ran costau, dewis a thryloywder yn y safonau cynhyrchu a phrosesu.**

## Cyfuno

Mae sector prosesu moch y Deyrnas Unedig wedi'i gyfuno'n helaeth. Amcangyfrifir bod 85% o farchnad foch y Deyrnas Unedig yn cael ei phrosesu gan bedwar cwmni, gyda 100% o'r moch sy'n cael eu magu yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu prosesu ar dri safle. Er y gall lefelau uwch o integreiddio yn y gadwyn gyflenwi greu canlyniadau cadarnhaol i'r sector ac i ddefnyddwyr, mae yna bryderon am effeithiau negyddol ar gynhyrchwyr.

**23. Mae cyfuno proseswyr moch wedi llesteirio sefyllfa ffermwyr moch yn y gadwyn gyflenwi. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb a rhowch wybodaeth am bob maes rydych chi'n teimlo bod yna effaith arno, yn gadarnhaol ac yn negyddol e.e., pris, cynhyrchiant etc.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim

At hynny, mae yna gwestiynau ynghylch a yw lefel uchel o gyfuno mewn prosesu wedi'i gwneud yn anodd i gynhyrchwyr dangos eu bod yn wahanol o ran safonau lles anifeiliaid neu ansawdd cig arbenigol etc. Mae'n bosibl bod cyfuno cyfleusterau prosesu a'r dirywiad yn y rhwydwaith lladd-dai bach wedi effeithio ar batrymau'r galw am doriadau penodol ac wedi cyfyngu gallu proseswyr y Deyrnas Unedig i gynhyrchu porc sy'n addas ar gyfer y farchnad gyfanwerthu.

**24. Mae cyfuno yn y sector prosesu wedi cyfyngu gallu ffermwyr moch i arbenigo. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad yma? Rhowch resymau dros eich ateb a rhowch wybodaeth am unrhyw feysydd rydych chi'n teimlo bod yna effaith arny'n nhw e.e., pris, cynhyrchiant etc.**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Wn i ddim

## Grwpiau marchnata

**25. Rydym yn awyddus i glywed eich barn am grwpiau marchnata a'r rôl maen nhw'n ei chwarae yn y gadwyn cyflenwi moch. Rhowch fanylion yn eich ateb.**

## Amrywiadau o fewn y Deyrnas Unedig

Mae diwydiant moch y Deyrnas Unedig yn rychwantu pob un o'r pedair gwlad gyfansoddol ac yn gweithredu fel un farchnad, ond mae gan y sectorau moch perthnasol wahaniaethau penodol, megis mwy o achosion o grwpiau marchnata a masnach drawsffiniol ag Iwerddon o fewn cadwyn gyflenwi Gogledd Iwerddon.

**26. Mae rheoliadau deddfwriaethol yn aml yn cael eu cymhwyso'n unffurf ar draws holl wledydd y Deyrnas Unedig. Oes unrhyw reswm pam y dylid mabwysiadu dull gwahanol? Rhwch resymau dros eich ateb.**

- Oes
- Nac oes
- Wn i ddim

## Pryderon eraill

**27. Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chysylltiadau busnes yn y gadwyn cyflenwi moch sydd heb gael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Rhwch fanylion yn eich ateb.**

**28. Faint o amser rydych chi'n amcangyfrif y byddai ei angen er mwyn rhoi unrhyw ddeddfwriaeth newydd ar waith? Rhwch resymau dros eich ateb.**

- 12 mis
- 24 mis
- 36 mis
- Arall (rhowch esboniad)
- Wn i ddim